PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 436 | Chwefror 2021



Sblat t.18



Actores brysur t.14

Cofio Gaenor Hall t.12-13



# Agor Gorsaf




Bore Sul 14 Chwefror am 9.12 am yr arhosodd y trên cyntaf yng ngorsaf newydd Bow Street gan ddarparu cysylltiad â'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol i'r gymuned leol am y tro cyntaf ers i'r hen orsaf gael ei chau ym 1965.

Gwasanaethir yr orsaf gan drenau ar Reilffordd y Cambrian rhwng Aberystwyth a'r Amwythig ac o 2022 ymlaen bydd yn elwa o gyflwyno trenau newydd sbon a gwasanaeth bob awr o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae Bow Street yn cynnwys un platfform 100m o hyd gyda lloches aros i deithwyr, pwynt gwybodaeth amser real. Dylai peiriant tocynnau fod ar gael yn yr wythnosau nesaf. Gan nad oes dim tocynnau yn cael eu gwerthu ar y trenau ar hyn o bryd bydd yna aelodau o staff ar yr orsaf tra mae'r peiriant i ffwrdd ond anogir teithwyr i brynu tocyn ar lein

Mae hefyd yn cynnwys maes parcio-a-theithio gyda lle i 70 o geir a phwynt codi a gollwng, mynediad at lwybrau beicio lleol a lloches dan do i feiciau. Mae mynediad hwylus i'r orsaf yn sgîl y gwelliannau i gyffordd bresennol yr A415 â'r A487(T).

Ond mae Trafnidiaeth Cymru yn atgoffa pobl mai dim ond teithio hanfodol ddylai ddigwydd ar hyn o bryd, ond os oes rhaid teithio, plis cynlluniwch eich taith o flaen llaw.

Eisoes dechreuodd bysus X28 a T2 Lloyds Machynlleth alw yna ac mae trafodaethau rhwng Cyngor Ceredigion a Mid Wales Motors ynglŷn ag amseru taflenni amser i gydfynd efo amseroedd eu bysus.




**Mae'r wybodaeth yn ddwyieithog ond y Saesneg oedd yn dangos pan gliciwyd y camera.**



# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**

**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916

**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mawrth: Dyddiad cau** Mawrth 5, **Dyddiad cyhoeddi** Mawrth 17

**CHWEFROR 17** Nos Fercher Cyfweliad gyda Karl Davies yn Foshan, China Cymdeithas y Penrhyn drwy Zoom am 7.30 - Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion cysylltu Ceris.Gruffudd@gmail.com

**CHWEFROR 19** Nos Wener 'Noson y Llywydd. 'Ailystyried O. M. Edwards' – sgwrs rhwng Hazel Walford Davies a Gruffydd Aled Williams, am 7.30 o'r gloch dros Zoom. Manylion cysylltu: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

**CHWEFROR 28** Nos Sul Gwasanaeth Gŵyl Ddewi trwy Zoom gan Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth am 5.00. Dathlu yng nghwmni'r hanesydd Gerald Morgan. Cod cwrdd: 964 3320 1895 Cyfrinair: 1588

**MAWRTH 1** Dydd Llun Dydd Gŵyl Ddewi Ni chynhelir yr orymdaith arferol ond bydd cyfres o ddigwyddiadau amgen i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth.

**MAWRTH 4** Dydd Iau Diwrnod y Llyfr

**MAWRTH 19** Dydd Gwener Diwrnod Trwynau Coch

**MAWRTH 19** Nos Wener 'Noson yng nghwmni Siân James', Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.




## Diolch

Hoffai Nia Gore ddiolch yn fawr iawn i bawb fu yn ei chynorthwyo gyda'r digwyddiad codi arian eleni eto. Cyfanswm y nawdd am redeg 5K oedd £2850 i Uned Cemotherapi Bron-glais a Beiciau Gwaed Cymru (Aberystwyth). Nid oedd modd cwrdd i gyflwyno y sieciau eleni o achos covid ond mae yr arian wedi mynd i'r elusennau.

Ers dechrau codi arian yn 2016 mae Nia wedi codi y swm anhygoel o £16,800.00. Da iawn Nia.

# 30 MLYNEDD YN ÔL



Mr Gwynfor Jones yn agor Pont Tyngelli Llun: Hugh Jones
(o'r *Tincer* Chwefror 1991)

Bu rhai yn holi pwy oedd yn canu Carol y Swper yn rhifyn Ionawr. O holi o amgylch dyma'r enwau. Rhidian Griffiths, Paul Morgan, Y Parchg David Francis, Tegwyn Lewis, Y Parchg Peter Thomas, Raymond Jones, John Rowlands, Alun John, Robert Dobson, Alwyn Jones, Huw Lloyd Jones, Rob Nichols a Ceris Gruffudd.

## Cronfa Eleri

Sefydlwyd Cronfa Eleri yn 1998, gyda £10,000 o bunnoedd y flwyddyn i'w rhannu (i gynyddu yn ôl chwyddiant). Ers hynny, dosrannwyd dros £330,000 o gymorth i dros 200 o gynlluniau. Er mwyn penderfynu pwy oedd i dderbyn cymorth fe sefydlwyd *Pwyllgor Cronfa Eleri* a fu'n gweithredu bob blwyddyn ers hynny i drafod y ceisiadau am gymorth ac i awgrymu i gwmni *Amgen* sut y dylid dosrannu'r arian.

Bu natur y cynlluniau a gefnogwyd yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at gynlluniau adnewyddu adeiladau, prynu offer, gwella adnoddau clybiau, meysydd chwarae i blant, datblygu cyhoeddiadau a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau – dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Gweinyddir y ceisiadau gan *Ysgrifennydd (Mygedol) Cronfa Eleri*. Mae hawl gan unrhyw unigolyn, corff neu fudiad wneud cais am gymorth i weithredu prosiectau sy'n unol ag amcanion Y Gronfa - sef "*Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu*." Maint Y Gronfa yn 2020 oedd £25,877. Mae'r Gronfa bellach ar gau i geisiadau am eleni. Y cyfnod nesa ar gyfer ceisiadau fydd Tachwedd 2021 i Ionawr 2022. Mae manylion llawn ar gael ar *www.cronfaeleri.cymru*

Yn 2020, nifer ceisiadau oedd 9 a chefnogwyd 9 ohonynt. Y cais uchaf oedd £9,500 a'r isaf yn £222. Y gefnogaeth uchaf roddwyd eleni oedd £7,500 a'r isaf yn £222. Yr ymgeiswyr llwyddiannus eleni oedd: Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont; Sioe Tal-y-bont; Cylchoedd Meithrin Rhydypennau, Trefeurig a Tal-y-bont; Neuaddau Penrhyn-coch a Rhydypennau; ac Ysgolion Tal-y-bont a Craig-yr-Wylfa.

## Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion

Mae'n flin gennym eich hysbysu ein bod wedi gwneud y penderfyniad anochel i ganslo Sioe 2021. Er bod y brechlyn yn cynnig gobaith, mae'r pwyllgor yn teimlo bod cynnal Sioe yn anymarferol o ystyried yr haen Covid rydym ynddi ar hyn o bryd a'r tebygolrwydd y bydd cyfyngiadau o ryw fath yn dal i fod yn eu lle ym mis Mehefin. Yn bwysicach fyth, rhaid ystyried iechyd a lles y cyhoedd. Bydd rhaid i ni ohirio trefniadau dathlu ein 75ain Sioe am flwyddyn arall ond tan hynny, cadwch yn saff a gobeithiwn eich gweld ar 11 Mehefin 2022

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ionawr 2021

**£25** (Rhif 122) E Jean Davies, Cnwc y Deintir, Bow Street

**£15** (Rhif 170 ) Y Parchg Ifan Mason Davies, Coed Rhiwfelen, Goginan

**£10** (Rhif 287) Llinos Evans, Waungron, Maeshendre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970 880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com
Diolch i bawb sydd wedi ail ymuno.

**RHODD**

Diolch i Mrs Jean Davies am gyfrannu ei gwobr o £25 y Cyfeillion yn ôl i goffrau'r Tincer. Diolch hefyd i Anwen Pierce am gyfrannu y tocynnau llyfr fel gwobrau i gystadleuaeth y cerddi i blant bl 5 a 6.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

**SIOP SGLODION**
**BOW STREET CHIPPY**
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
**01970 820567**

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
**01970 820124**
**07709 505741**

GWASANAETH
**GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu y Cyngor uchod ar nos Iau Ionawr 28, 2021, trwy gyfrwng llinell ffôn Why Pay. Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwraig Meinir Lowry y Cynghorwyr anweledig i'r cyfarfod a dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan ddiolch i'r Clerc Y Parch Richard Lewis am drefnu y cyfarfod yn dechnolegol lwyddiannus. O dan faterion personol, roedd y Clerc wedi datgan y byddai yn dymuno ymddeol o'i swydd yn ystod y flwyddyn bresennol, ond wedi sylweddoli bod hon yn flwyddyn etholiad Cynghorau Cymuned ym mis Mai, a deall fod rhai o'n cynghorwyr presennol ddim am gael eu hail ethol, penderfynodd y Parch Richard Lewis barhau yn y swydd tra bod y Cyngor newydd yn cael ei draed tano i weithredu.

Dywedodd y Cynghorydd Sirol Paul Hinge, ei fod yn cael ei ddyrchafu yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystod y flwyddyn hon a'i fod wedi apwyntio Y Parch Richard Lewis yn Gaplan iddo. Llongyfarchwyd y Cyng Hinge ar ei anrhydedd a dymunwyd yn dda iddo.

Mynegodd y Gynghorwraig Sharon King ei bod am gael ei rhyddhau o swydd fel Cynghorwraig, diolchwyd iddi am ei gwasanaeth.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd Medi a Tachwedd 2020 fel rhai cywir, materion yn codi o'r cofnodion. 1) yr Hysbysfwrdd, dywedodd y Clerc ei fod wedi pwrcasu hysbysfwrdd safonol cryf drwy gyfarwyddyd arbenigol Cwmni Greenbar Aberystwyth am bris o gwmpas £800. Hyderir y bydd yn cael ei osod yn fuan ger siop Spar, diolch i deulu Roberts. 2) Safle orsaf. Rhoddodd y Cynghorydd Hinge adroddiad bod yr orsaf ar y trac a disgwylir y bydd yn weithredol erbyn 14 Chwefror. Bu y glawogydd diweddar yn creu tipyn o rwystr yn y datblygiad ac yn y tir ger y gwaith trin carthffosiaeth. Chwythodd y pyllau i fyny gan arllwys carthffosiaeth ar hyd y cae. Ond ni b llifogydd fel yr ofnwyd o gwmpas mynedfa a thu hwnt i'r safle. Materion Cynllunio. Roedd nifer o rhain eisoes wedi cael caniatâd Pwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir. 1) yn 55 Bryncastell, dymchwel garej er mwyn rhoi estyniad i'r tŷ. Dim gwrthwynebiad gan breswylwyr lleol. 2) Safle ger Closcorwen, Llangorwen. 5 o dai i'w codi yma, er bod pryder gan bobl lleol am y fynedfa i'r ffordd brysur a phroblem dŵr sydd eisoes yn llifo i dai ar fin y ffordd tua Bow Street. Gan fod Clarach yn "linc settlement" i Aberystwyth, mae rhwydd hynt i godi tai yn yr ardal. Sut bynnag mae ein Cyngor yn cefnogi sylwadau y trigolion. 3) Garn Rhos, Maes Ceiro. Bu newid ar y cais droeon am nifer y tai bwriedir eu codi yma. Deallir mai 7 yw'r caniatâd diweddar. Ond mae pryder yma eto am broblem y dŵr a'r garthffosiaeth yn yr ardal. Mae llifogydd yn llifo i lawr Maes Ceiro ac yn peri gofid i'r tai ar waelod yr ystâd. Problem arall yw y parcio yno. Disgwyl rhywun o'r Adran Gynllunio i ddod allan. 4 a 5) Datblygiadau yn Bryngwyn Canol, estyniad i'r tŷ a newidiadau i adeilad arall. 6) Pentre Gwyliau, Bae Clarach. Newid dau annedd byw i dai gosod gwyliau. Pryder gan drigolion tai glan y môr am y datblygiad a'r broblem gorlifo ar yr ardal.

Yn ychwanegol at yr uchod adroddodd y Cyng Hinge am broblem gyda Glan y Môr, sydd am gau y maes parcio a lle mae bysiau yn troi yn ôl ac yn groes i Lwybr yr Arfordir. Ei eiddo nhw yw y darn, felly gobeithir gofyn iddynt fel ffafr i beidio a'i gau i mewn, a chaniatáu parcio yno fel y bu ar hyd y blynyddoedd.

Adroddodd v Cvnghorydd Rob Pugh bod y llwybr o waelod Maes Ceiro at y Bont Wen a thros Afon Ceiro a'r rheilffordd tua Ruel mewn cyflwr drwg a mwdlyd gyda dŵr yn llifo o hen rhos y "bwtcher" lle codwyd tai yn ddiweddar. Dywedodd bod rhywun i ddod allan o Geredigion i adolygu y llwybr.

Un newydd da, daeth llythyr i'r clerc yn hysbysu bod gobaith bwrw ymlaen ar lwybr Dolau i Bow Street yn y flwyddyn ariannol bresennol o Ebrill ymlaen. Cafodd gopi o'r Cynlluniau.

Dyma'r Cyfarfod y rhennir rhoddion ariannol i Elusennau lleol sydd wedi gwneud ceisiadau erbyn y noson hon. Penderfynwyd fel a ganlyn.

Ffrindiau Cartref Tregerddan £600, Y Tincer £600, Cymdeithas Maes Chwarae £600, Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre £600, Mynwent Y Garn £550, Mynwent Noddfa £350, Cylch Meithrin Rhydypennau £500, Ambiwlans Awyr Cymru £200, Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont £200, CAB Ceredigion £200, Samariaid Aberystwyth £200. Dylid nodi hefyd bod £500 wedi ei gyfrannu i Gyfeillion Cartref Tregerddan yn gynt i dalu am offer arbennig.

Cyflwynodd y Clerc Fantolen Gyllideb 2021-2022 i'r Cyngor , derbyniwyd hi, diolchwyd i'r Parch Richard Lewis am ei waith trylwyr. Roedd yn rhagweld y bydd yna weddill o tua £23,000 mewn llaw ar ddiwedd 2020-21. Nodwn hefyd y bydd angen adnewyddu peth o offer Cae Chwarae Tregerddan cyn hir ac hefyd ran helaeth o ffens Cae Chwarae Bryncastell.

Cofier hefyd am y bwriad i gaffael gwefan newydd hwylus. Gofynnwyd i'r Cyng. Iestyn Hughes i baratoi adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf ar sefydlu gwefan briodol.

Penderfynwyd cadw at yr un Praesept a llynedd sef £19,000 = £24.01 am annedd Band D.

Wrth derfynu dywedodd y Clerc bod sylwadau calonogol wedi dod gan y cyhoedd am y Goeden Nadolig. Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Chwefror

# Y BORTH

**Pantyfedwen**
Oes gan unrhyw un atgofion o hen ganolfan yr Urdd yn y Borth? Mae Esther Prytherch yn gwneud rhaglen i BBC Radio Cymru am fywyd Syr David James ac yn awyddus i glywed atgofion am adeilad Pantyfedwen a gafodd ei ddymchwel yn 1976. Gallwch gysylltu ar 07968 593078.

**AGrantiau adnewyddu i ganolfan gymunedol**
Mae gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo ar ganolfan celfyddydau cymunedol sydd wedi'i lleoli yn hen Eglwys Gatholig y Borth, 'Our Lady Star of the Sea'.

Mae canolfan 'Star of the Sea' wedi derbyn dau grant tuag at waith adeiladu, sef £25,000 drwy gronfa 'Grant Cyfleusterau Cymunedol' Llywodraeth Cymru a £16,600 drwy Gynllun Grant Cymunedol Ceredigion.

Gan ddefnyddio rhywfaint o gronfa'r ganolfan hefyd, mae cyfanswm o ddeutu £46,000 yn cael ei wario ar y gwaith o adnewyddu'r adeilad sy'n dyddio nôl i'r 19eg ganrif.

Mae'r gwelliannau yn cynnwys gosod ffenestri dwbl ar waliau'r de a'r gogledd, ac adnewyddu'r tair ffenest fawr gothig ar ochr orllewinol yr adeilad.

Bydd drysau newydd yn cael eu gosod yn y blaen a'r cefn, y nenfwd yn cael ei thrwsio, a lefel y llawr mewnol yn cael ei chodi er mwyn gwella mynediad cadair olwyn i'r adeilad.

Bydd cegin ac ystafell sain newydd yn ogystal ag offer goleuo a sain, a bydd llenni newydd ar gyfer y llwyfan.

Adeiladwyr, trydanwyr a gweithwyr lleol eraill sydd wrthi'n gwneud y Gwaith, gyda'r cyfan yn cael ei oruchwylio gan wirfoddolwyr y ganolfan, yn cynnwys Helen Sharma sy'n gofalu am yr ochr ariannol a Kathy Hosker sy'n rheoli'r prosiect.

Y gobaith yw y bydd yr adnewyddu wedi'i gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf ac y bydd modd cynnal digwyddiadau cymunedol unwaith eto pan fydd y cyfyngiadau wedi'u codi a rheoliadau'r llywodraeth yn caniatáu.

Dyfarnwyd grant hefyd drwy raglen 'Ynni Clyfar' Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i edrych ar ddichonoldeb gosod ynni adnewyddol yn yr adeilad ynghyd â phwyntiau gwefru ceir trydan.

Am y diweddaraf, dilynwch 'Star of the Sea' ar Facebook www.facebook.com/StarBorth neu Instagram www.instagram.com/starofthesea_borth



**Gwaith adnewyddu mawr yng nghanolfan 'Star of the Sea'**

**Brechu yn y Borth**
Mae meddygfa'r Borth wedi bod yn brysur yn rhoi'r brechlyn yn erbyn Covid-19 i bobl yr ardal. Mae Neuadd Gymunedol y pentre hefyd yn cael ei defnyddio fel canolfan ar gyfer rhoi'r brechlyn. Diolch i holl staff y feddygfa a'r gwasanaeth iechyd yn lleol am eu gwaith gwerthfawr.

**Cerdded Er Budd Lles**
Mae mesuryddion camau yn cael eu dosbarthu ymhlith rhai o drigolion hŷn y Borth ym mis Chwefror fel rhan o ymgyrch Cerdded Er Budd Lles.

Y nod yw annog pobl i gerdded mwy drwy gofnodi eu camau'n ddyddiol a'u rhannu'n wythnosol gyda threfnwyr y prosiect.

Y gobaith yw y bydd y rhai sy'n cymryd rhan yng Ngheredigion wedi llwyddo at ei gilydd i gerdded mwy o filltir na hyd yr Afon Nil.

Canolfan Deulu'r Borth sy'n dosbarthu'r mesuryddion yn lleol ac mae modd cysylltu gyda Helen Williams am fanylion pellach drwy e-bostio helen@borthfamilycentre.co.uk.

Mae'r Ganolfan yn dal i ddosbarthu pecynnau celf yn lleol ond drwy'r post yn unig bellach.

**Er cof am Celia Matthews**
Gyda thristwch yr ydym yn cofnod marwolaeth Celia Matthews, Maesarfor, yn 94 oed. Bydd llawer yn cofio Celia am ei hymrwymiad a'i chefnogaeth i'r Philomusica yn Aberystwyth, lle bu'n chwarae'r ffidil ac yn gwasanaethu fel ysgrifennydd am nifer o flynyddoedd. Roedd hefyd yn aelod gweithgar o Gyfeillion Amgueddfa Ceredigion a'i archif o hanes lleol.

Bydd eraill efallai yn cofio sut y byddai'n gyrru bob dydd i'r Drenewydd, ym mhob tywydd, i ddysgu yn Ysgol Cedewain, lle roedd hi'n addysgu plant ag anableddau dysgu. Bu'n rhedeg ysgol feithrin am gyfnod byr yn y Borth yn y 1970au.

Mae ei gŵr David yn byw yn Maesarfor o hyd ac yn cael gofal da gan ei ferched. Roedd Celia a David wrth eu bodd yn cerdded yr ardal o amgylch y Borth ac yn hoff o chwilota archifau hanes lleol y pentref er mwyn canfod mwy am stori eu tŷ Maesarfor (Sea View gynt nes i'r morglawdd ymddangos).

Cafodd Celia fywyd hir a hapus, a bydd ei gŵr David, eu merched Alyson, Deb ac Elaine, a'i hwyrion Dom, Mel, Krys, a Zanni yn gweld ei heisiau'n fawr.




**Arwydd o'r oerfel ddechrau Chwefror oedd y llun yma gan Chris Denny yn dangos pibonwy ar y traeth.**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN





**Priodas Saffir**
Llongyfarchiadau i Eilir a Linda Morris, Glennydd, ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol ar Fawrth 7fed 2021. Daw'r dymuniadau oddi wrth y teulu a'r ffrindiau oll.

**Ysbyty**
Dymunwn adferiad llwyr a buan i Heulwen Lewis, Deiniol, sydd wedi derbyn triniaeth feddygol yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Mae'n anodd dychmygu Heulwen yn gaeth, am amser byr hyd yn oed. Yn arferol yn dosbarthu *Y Goleuad, Gair o'r Garn*. *Y Tincer* a llawer mwy o waith ei chapel. Ac hefyd, yn picio draw, a'r 'sponges' bendigedig yna, i bwy bynnag yn yr ardal sy'n glaf, dathlu pen blwydd arbennig, priodas, a charden fach i hwn a'r llall am eu llwyddiant pa beth bynnag y bo. Yn wir Heulwen, brysiwch wella, a danfonwn ein cofion gorau, oddi wrth ddarllenwyr *Y Tincer*.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan iawn i Mr. Gwyn a Mrs Ann Edwards, Hyfrydle sydd ill dau yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Brysiwch wella yw ein dymuniad ni fel ardal fel y gallwn eich croesawu adre yn fuan iawn.

**Geni ŵyr**
Llongyfarchiadau i'r Parchg Watcyn a Lowri James, Eryl. ar enedigaeth ŵyr bach yn Wrecsam - Gruffydd, mab i Dr Esyllt a Tom ar 25 Ionawr.

**Cangen Merched y Wawr Melindwr**
Nos Iau 4ydd Chwefror daeth dros 80 o aelodau o ganghennau dros Geredigion a Sir Benfro at ei gilydd i glywed hanes diddorol Hazel Thomas ein Swyddog Datblygu.Yn enedigol o Dre-fach cafodd addysg yn Ysgol Llambed. Yna daeth cyfle i fynd i Goleg San Steffan lle cafodd hyfforddiant i fod yn gogyddes broffesiynol a derbyniodd y swydd gyntaf i ferch yng Ngwesty 'r Dorchester o dan y cogydd enwog Anto Mossiman. Gwnaeth gysylltiadau pwysig yng nghyfnod y 70au sydd wedi dylanwadu ar ei gyrfa dros y blynyddoedd yn y maesydd hyfforddi a datblygu diwylliant bwyd.

Mae Hazel yn hoff iawn dweud stori am hanes ei theulu ac yn ein hannog ni i feddwl gwneud yr un fath.Gyda lluniau Power Point a gollwng aelodau hwyr i fewn roedd yn noson hwylus iawn. Diolchwyd gan ein cadeirydd Eirlys Morgan

Rhaid diolch i ddwy o aelodau Melindwr -n sef Eirlys Davies ac Eirwen McAnulty am fynd ati i wau blodau mor hardd fel y gwelwch. Os oes aelodau eraill wedi cwbwlhau eu blodau, gobeithio gallwch gysylltu â swyddogion y gangen os gwelwch yn dda. Y bwriad yw i wneud mwy nac un Enfys Gobaith dros Gymru gyda'r rhain.

Mae llawer o weithgareddau a chystadlaethau wedi trefnu dros y misoedd nesaf. Mae lan i ni i gyd gadw mewn cysylltiad ac i wneudw y gorau ohonynt.

Bydd y rhifyn nesaf o'r *Wawr* yn cael ei ddosbarthu yr wythnos gyntaf yn Mawrth. Fel aelodau rydym yn dymuno'n dda i Heulwen. Cadwch ati i wella Heulwen.

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Aled George Lewis, Ystrad, ddathlodd ei ben blwydd yn 50 ar 11 Chwefror.

# CLARACH / LLANGORWEN

**Y ddiweddar Mrs Glenys Jones, Clarach (1920-2021)**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Glenys Jones, Plas Cwmcynfelyn, ar 11 Chwefror a hithau wedi dathlu ei phen blwydd yn 100 oed ar 23 Awst 2020.

Yn enedigol o Langadog, Sir Gaerfyrddin, treuliodd ei bywyd priodasol yn Nyffryn Clarach yn Nhanyfoel a Phistyll Tegan. Bu farw ei phriod Richard Jones, amaethwr uchel iawn ei barch, yn 2006. Cofir Glenys fel dynes annwyl, gymwynasgar a charedig, a bu'n arbennig o deyrngar a ffyddlon i Eglwys yr Holl Seintiau, Llangorwen, lle cynhelir ei hangladd dydd Iau 18 Chwefror dan ofal y Canon Andrew Loat.

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i phlant John a Siân a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth. Ymgartrefodd Glenys ym Mhlas Cwmcynfelyn yn ei blynyddoedd olaf gan dderbyn y gofal gorau yno. Coffa da amdani.

REH

# DÔL-Y-BONT

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Siân a John Cory, Bryngwyn, ar enedigaeth eu hwyres Carys Mair Pugh ar ddydd San Steffan. Merch fach i Bethan a Gareth, Llanuwchllyn.

**Marwolaeth**
Gyda thristwch mawr y clywsom ddiwedd Ionawr am farwolaeth Mrs. Margaret Pyle. Bu Margaret a Ian Pyle yn byw yn y Gilan am flynyddoedd cyn symud i fyw i Efrog. Roeddynt yn gaffeiliad mawr i Gapel Y Babell ac i weithgareddau'r pentref yn gyffredinol tra buont yn byw yn ein plith. Estynnwn ein cydymdeimlad ag Ian a'r pedwar plentyn a'r wyrion yn eu colled.

**Croeso**
Estynnwn groeso i Sylvia a Heather Bradley sydd wedi dod yn berchnogion newydd ar Brynelmen. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith ar ôl symud o Norfolk.

**Gwella**
Bu Gerallt Evans, Pantydwn yn yr Ysbyty yn ddiweddar – rydym yn falch ei fod adre ac yn gwella erbyn hyn.



## Colofn BEN LAKE AS

# Mae'r dyfodol yn ein dwylo ni...

Mae'r misoedd diwethaf wedi gorfodi gwleidyddion, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, mudiadau a busnesau i newid - newid polisiau, newid blaenoriaethau, newid gwasanaethau a newid ein ffordd o fyw – i gyd yn sgil Covid-19.

Ond a fydd Covid-19 yn fodd i ni newid cymdeithas er gwell, wrth i ni edrych i'r dyfodol?

Mae ymdrech arwrol y gwasanaeth iechyd i roi rhaglen frechu nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen ar waith yn rhywbeth sydd wedi rhoi gobaith i bob un ohonom, ac wedi gwneud i ni fentro meddwl am fywyd ar ôl Covid.

Ond pa fath o gymdeithas ydyn ni eisiau ei gweld yn y dyfodol? Ydyn ni eisiau dychwelyd i'r hen drefn neu ydyn ni eisiau ailadeiladu cymdeithas mewn modd sy'n cryfhau ein cymunedau?

Yn sicr mae'r pandemig wedi'n hatgoffa unwaith ac am byth o bwysigrwydd gweithwyr allweddol: o'r nyrsys i'r cynhyrchwyr bwyd; o staff ein cartrefi gofal i'r gweithwyr sy'n casglu sbwriel – maent wedi cadw cymdeithas i fynd drwy gyfnodau tywyllaf y pandemig, ac mae angen i ni gydnabod hynny ar fyrder. Mae angen budsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen codiad cyflog teg ar weithwyr y gwasanaeth iechyd a'r sector gofal. Mae angen rhoi gwerth ar y gadwyn fwyd leol a'r busnesau bach lleol hefyd sydd mor ganolog i'r economi lleol.

Maes arall sydd angen sylw ar fyrder yn sgil y pandemig yw iechyd meddwl, yn enwedig yma yng nghefn gwlad. Mae'n anodd dadlau gyda'r rheiny sy'n rhybuddio y gallai problemau iechyd meddwl ddatblygu i fod yn bandemig ynddo'i hun os na wnawn ni fuddsoddi ar fyrder a chyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd ry'n ni'n cefnogi unigolion o bob oed sy'n dioddef. Mae angen mwy na chodi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl erbyn hyn (er mor bwysig yw hynny) - mae angen buddsoddi a gweithredu nawr cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

Argyfwng arall sydd wedi dod i'r amlwg fwyfwy yn sgil y pandemig yw'r argyfwng dai, yn enwedig yma yn y gorllewin. Er gwaetha pa mor gymhleth yw'r sefyllfa, does dim dwywaith bod angen trafod y pwnc a rhoi llais i bobl ifanc lleol sy'n ei chael hi mor anodd i ymagrtrefu yn eu cynefin. Yn bwysicach oll efallai, mae angen sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â thai a chynllunio yn cael eu gwneud yn lleol, ac er lles ein cymunedau.

## LLANDRE

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Gerwyn a Marianne Jones Powell, Leacroft, ar farwolaeth chwaer Gerwyn yn Llangybi.

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Gwyneth Evans, Hendre, Maesehenllan. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a Shan ac Andrew ym Mont-goch a'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn â Iestyn a Catrin Davies, Glain a Miriam, Pentan, Lôn Glanfred, ar golli tad Iestyn yn ddiweddar - Dr Aled Lloyd Davies, yr Wyddgrug.

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus hwyr i Arwyn Mason ddathlodd ei ben blwydd yn 50 ddiwedd Ionawr.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Patrick, Llenni a Myfi Lawlor, Penffrwd ar farwolaeth modryb i Patrick yn ne Cymru.

**Brysiwch wella**

Cafodd Jim Salvona ddamwain yn ei gartref yn ddiweddar ac mae ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais. Anfonwn ein cofion a dymuniadau gorau iddo gan obeithio y bydd adref yn fuan.



STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Mid Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

*Trefnwyr Angladdau*
***C T Evans***
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

# PENRHYN-COCH

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Richard a Gwenan Davies, Ger-y-llan. Bu farw Ifor Richards yn Gosport, Hampshire - gŵr Elma, chwaer Richard.

**Ennill gwobr**
Llongyfarchiadau i William Howells, Penrhyn-coch am ennill y wobr am Oriel luniau y flwyddyn 2021 yng ngwobrau Bro360 am gyfres o luniau am Eisteddfodau Cenedlaethol Aberystwyth. Gwelir Dan Johnson yn cyhoeddi enw'r enillydd.




**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Laurence Kelly, Swyddfa'r Post a Dr Rhys Kelly, Glan Ceulan, ar farwolaeth eu mam-gu.

**Brownis Penrhyn-coch**
Os am ymuno ag Uned Brownis Penrhyn-coch cysylltwch gyda Wendy Reynolds ar 01970 820 124 neu ewch i'r wefan https://www.girlguiding.org.uk

Mya James a wnaeth ei Addewid ar Zoom yn ddiweddar – aelod cyntaf Brownis Penrhyn-coch i wneud trwy'r cyfrwng yma.




**Gweithiwr prysur**
Dyma arwr bach! Bu Alfie Atherton (5 oed) yn casglu sbwriel o amgylch y pentref yn ddiweddar – casglodd ddau sachaid llawn rhwng Neuadd y Penrhyn a Garej Ty Mawr drwy y Cae Chwarae. Da iawn ti Alfie!

**Ennill ar delyneg**
Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris, Berwynfa, am ennill cystadleuaeth y delyneg yn Eisteddfod Caerdydd 2021. Dyma ail eisteddfod dinas Caerdydd sefydlwyd yn sgîl ymweliad Eisteddfod Genedlaethol 2018.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Amy Lucia Jenkins, Salem, sydd wedi graddio gyda gradd Meistr o Brifysgol Abertawe mewn Criminoleg gydag arbenigrwydd mewn trosedd seibr a therfysgaeth.

**Cydymdeimlad**
Trist oedd clywed y newydd am R. Alan Jones, Panteg, fu farw yn dawel yng nghartref ei chwaer yn 68 oed fore Iau 21 Ionawr. Estynnwn ein cydymdeimlad â Janet a'r teulu yng Nghomins-coch. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyh; derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Bowel Cancer UK d/o D.J. Evans, Penrhyn-coch.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Elfyn Llwyd oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr a chawsom dipyn o hanes ei yrfa wleidyddol fel Aelod Seneddol Plaid Cymru yn San Steffan. Mae newydd gyhoeddi llyfr o'r enw *Betws a'r Byd* sy'n rhoi rhai argraffiadau o'i fywyd seneddol o 1992 ymlaen pan etholwyd ef i gynrychioli etholaeth Meirionnydd Nant Conwy, ac yna Dwyfor Meirionnydd.




O'i argraffiadau cynnar o arferion rhyfedd Tŷ'r Cyffredin i gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau'r llywodraeth mewn perthynas â Chymru, cawsom nifer o hanesion pwysig a dadlennol. Nododd bwysigrwydd ceisio arbenigo mewn un neu ddau faes;



dewisodd faes plant a dadlau dros greu swydd Comisiynydd Plant. Bu'n weithgar hefyd ar y Pwyllgor Cyfiawnder a llwyddodd i gael Deddf Stelcian drwy'r Senedd.

Soniodd am y bobl ddiddorol y cafyrfu â nhw a'r nifer fawr o wledydd y cafodd gyfle i fynd iddynt. Cawsom noson werth chweil oedd yn codi cwr y llen ar waith eithriadol o bwysig. Roedd y cyfan yn ragflas o'r llyfr *Betws a'r Byd* a gyhoeddwyd gan y Lolfa, pris £9.99.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus hwyr i'r Parchg Andrew Loat ddathlodd ben blwydd arbennig ar 11 Chwefror.








**Mae Nesta ac Esyllt wedi bod yn addurno a rhannu cerrig o gwmpas Penrhyn-coch ar gyfer diwrnod Santes Dwynwen "i roi gwên ar wyneb pobl sy'n unig ac i gofio'r diwrnod"**





**Clybiau Sul Horeb a St Ioan**
Elen, Twm, Ned, Hedydd, Miriam, Florence, Nia ac Aled - aelodau o Glybiau Sul Horeb a Sant Ioan sydd yn cwrdd ar Zoom gyda'r thema "Iesu yn Caru'r Byd".



**Llongyfarchiadau i Gethin Jones, Caerdydd - mab John Ifor Jones, Maesyfelin, enillodd gystadleuaeth Mastermind Cymru yn ddiweddar.**

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 19 Ionawr 2021 ar y we. Cadeiriwyd gan Delyth James, y Cadeirydd, ac roedd y cynghorwyr Iona Davies, Mel Evans, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Edwina Davies.

Cyllideb ar gyfer 2021-22: penderfynwyd nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros gynyddu'r archebiant ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac y dylid glynu at yr un swm ag eleni sef £13,000.

Cynllunio: A201095 – cais i godi tŷ fforddiadwy ar gyfer pobl leol ar gornel un o gaeau Pen-banc ger Gwynley ar y ffordd i Salem. Dim gwrthwynebiad. A200996 – codi pum pod campio ar dir amaethyddol yn perthyn i Gellinebwen yn ffinio â'r ffordd o Gefn-llwyd i Fanc-y-darren. Dim gwrthwynebiad, ond penderfynwyd holi Cyngor Ceredigion beth oedd eu polisi am y math yma o ddatblygiad.

# DOLAU

**Cydymdeimlad**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Joanna (Jo) Cash, Ynys Afallon.

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i phriod Ray, a fu'n ofalus iawn ohoni yn ystod ei salwch, eu plant Adrian ac Anna, ac â'r teulu cyfan yn eu colled.

Roedd Jo yn ffigwr poblogaidd iawn ar lawntiau bowlio Ceredigion, a gwelir ei heisiau gan gylch eang iawn o ffrindiau. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 11 Chwefror.

**Gaenor Hall**
Trist yw cofnodi marwolaeth un o drigolion hynaf y Dolau, sef Mrs Gaenor Hall, ar ol cystudd hir. Cydymdeimlwn yn ddwys efo Heledd-Ann, Catrin, a Mabli a fu yn gofalu mor ddiwyd am eu Mam yn ei salwch. Gweler teyrnged ar t.12-13

**I gofio am Gaenor Hall, Minafon, Dole**
Dymuna Heledd-Ann, Catrin a Mabli ddiolch yn gynnes iawn am gyfeillgarwch ffrindiau a theulu ac am y llu o negeseuon, galwadau, cardiau a chyfraniadau a dderbyniwyd i gofio am eu mam.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus hwyr i Lowri Evans, Fronddel ddathlodd ei phen blwydd yn 50 ddechrau mis Chwefror.

# GOGINAN

**Parseli Nadolig**
Hoffai henoed ardal Goginan ddiolch o galon i Gymdeithas Goginan am drefnu a dosbarthu y parseli Nadolig i drigolion yr ardal.

**Cydymdeimlo**
Daeth cwmwl o dristwch dros yr ardal pan ddeallwyd fod Ken Morris, Y Wern gynt wedi marw. Gorfod i Ken symud o'r ardal bron i ddwy flynedd yn ôl oherwydd ei iechyd. Bonheddwr a phawb yn ei adnabod, yn cerdded y pentre gyda'i gŵn achub, ac yn barod iawn i sgwrsio a gwrando. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i deulu.

**Dymuniadau Gorau**
Penblwydd hapus i Malcolm Davies, Glwysle ar ddathlu ei ben blwydd yn chwe deg pump yn ystod mis Ionawr. Agosau at ei bensiwn yn awr!


Croeso i deuluoedd

6 teledu gyda Sky Sports

Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr

Bwrdd 'pool' a byrddau darts

Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim

TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF / CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC

01970 828 992


**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Cofio Gaenor Hall

Ar Ionawr 25ain eleni bu farw Gaenor Hall, Minafon, Dole, gwraig yr oedd ei llinach yn mynd yn ôl ymhell iawn yn yr ardal.

Ganwyd hi yn Bryngwyn Isaf yn 1932, ond symudodd ei rhieni i Birmingham yn fuan wedyn. Un o'i hatgofion cynharaf oedd dod ar y trên gyda'i Mam-gu a'i doli glwt o Birmingham, i Felin Gyffin, a hithau yn dair oed ar y pryd. Yno gyda'i thad-cu a'i mam-gu a'i modryb Glenys, chwaer ei mam, y bu'n byw wedi hynny, ar fferm a oedd hefyd yn felin i falu llafuriau ffermydd y gymdogaeth.

Ganwyd Gaenor i deulu neilltuol o gerddorol; etifeddodd gerddoriaeth drwy ei genynnau ac o'i hamgylchfyd - amgylchfyd lle roedd parch aruthrol hefyd at iaith a geiriau, boed yn y capel neu ar aelwydydd y gymdogaeth. Cydblethiad y ddau edefyn hynny a esgorodd ar ei hangerdd ynghylch Cerdd Dant; wrth edrych ar ei gyrfa gwelir bod Cerdd Dant wedi bod yn genhadaeth iddi – gwneud i eiriau ganu ac i gerddoriaeth siarad.

**Carwyn Tywyn**

Tristwch mawr i glywed am farwolaeth Gaenor Hall, cyn-athrawes Cerddoriaeth Ysgol Penweddig. Fel dysgwr Cymraeg ar y pryd, bu Gaenor yn ddylanwad mawr arnaf yn fy nghyflwyno i gerddoriaeth cyfoes Cymraeg, a bydd gan genhedlaeth(au) o ddisgyblion atgofion cynnes amdani. Does dim syniad gen i pryd neu ble bydd fy mherfformiad cyntaf ar ôl y pandemig - ond fe wn y bydd cân er cof am Gaenor ar y "setlist".



Ar ôl bod yn Ysgolion Rhydypennau ac Ardwyn, a llwyddo yn ei *Higher* gyda Rhagoriaeth mewn Cymraeg a Cherddoriaeth, ac ennill Ysgoloriaeth Agored i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth, graddiodd mewn Cerddoriaeth gan arbenigo mewn Piano, Llais a Thelyn.

Un haf, tra'n gweithio yng ngwersyll gwyliau Sunnyvale yn y Rhyl cwrddodd â Sais ifanc o'r enw Eric Hall. Dan ei hanogaeth disyfl hi, trôdd y llanc o Sais yn Gymro a dod yn ŵr iddi yn 1954.

Bu'n athrawes Cerdd yn Ysgol Ramadeg Merthyr Tudful a Choleg Technegol Mynwent y Crynwyr cyn priodi, wedyn yng Nghaerwrangon, ac yna yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth, gan ymgartrefu yn Llanddarog, lle ganwyd Heledd-Ann. Daeth yn ôl i Aberystwyth yn 1959 pan gafodd Eric swydd yn Adran Addysg y Brifysgol a dyna lle ganwyd Catrin; yna symudodd y teulu i fyw ym Minafon, y Dole, a dyna lle ganwyd Mabli.

Cyfunodd Gaenor y gwaith o fagu teulu â hyrwyddo Cerdd Dant. Bu'n cynnal cyrsiau cerdd dant dan nawdd Adran Allanol y Brifysgol ac yn diwtor telyn i ddosbarth yn Llanbed dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Ysgrifennodd erthyglau i gylchgrawn *Yr Athro* ar bynciau megis "Arbofi gydag effaith sain a mydr" "Cyfeilio a Chordiau" ac ymddangosodd erthyglau a gosodiadau ganddi yn *Allwedd y Tannau* - cylchgrawn y Gymdeithas Cerdd Dant. Byddai hefyd yn flaenllaw yn nosweithiau cerddorol gwefreiddiol Dafydd a Siarlot Miles ym Mhlas Hendre. Byddai Gaenor ar y delyn efo'r ddiweddar Meinir Macdonald yn canu Gogonedawg Arglwydd a Brenin Gogoniant yn gosod cywair bendigedig i'r Gwasanaethau Gŵyl Ddewi ym Mhlas Hendre.

Llwyddodd droeon mewn cystadlaethau cenedlaethol, - "Gosod Cerdd Dant ar y pryd", cyfansoddi "Unawd i Denor gyda chyfeiliant telyn", cyfansoddi cerddoriaeth a'i chwarae ar y delyn yn gyfeiliant i adroddiad gan Vernon Jones yn yr Ŵyl Gerdd Dant, ymhlith pethau eraill.

Bu'n gosod yn gyson i ddatgeiniaid, yn hyfforddi unigolion a grwpiau, ac yn cynghori hyfforddwyr. Bu'n feirniad yn y ddwy eisteddfod genedlaethol ac yn yr Ŵyl Gerdd Dant ac yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Gerdd Dant Cymru, gan ddod yn Aelod Anrhydeddus am Oes o'r Gymdeithas honno.

Bu'n Llywydd ei Changen leol o Ferched y Wawr, yn Ysgrifennydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymraeg Aberystwyth, yn organydd ac yn Gadeirydd Cymdeithas y Chwiorydd yng Nghapel y Garn, ac yn Athrawes Dosbarth Ysgol Sul i Oedolion a fyddai'n cyfarfod yng Nghapel Bethlehem.

**Llio Penri, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas**

Mae'n gyfnod llethol o drist wrth inni ffarwelio â Gaenor Hall, un arall o hoelion wyth y Gymdeithas Gerdd Dant. Yn aelod anrhydeddus am oes o'r Gymdeithas, yn gyfansoddwr ceinciau, gosodwr, hyfforddwr a beirniad, roedd cyfraniad Gaenor Hall a'i chraffter meddwl mewn pwyllgorau yn amhrisiadwy. Mae ein diolch yn fawr iddi am fynnu bod Cerdd Dant yn cael ei chydnabod yng nghwricwlwm a manylebion byd Addysg.....

## MADOG DEWI / CEFN-LLWYD

**Cydymdeimlad**
Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi, a chydymdeimlwn gyda'i fab Siôn a'i briod Lisa a'r wyresau yn Nhal-y-bont. Roedd wedi cartrefu yng nghartref Allt y Mynydd, Llanybydder ers tua dwy flynedd.

Buodd Hywel yn gefnogwr brwd o'r sioeau lleol a'r frenhinol gan ennill llu o wobrau yn yr adran gwaith coed; roedd yn arbenigwr ar wneud ffyn;

gyda theulu Felin Hen ar golli dau berthynas yn ddiweddar – Mr Hugh Jones ac Alan Jones, Panteg, Penrhyn-coch.

hefyd, gyda Janet a Sion Meredith a'r teulu, Maes Awel, Cefn Llwyd, ar farwolaeth tad Janet yn Rhiw, ger Aberdaron.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Catherine Thomas, Brynheulog, ar ôl treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Bron-glais.

**Bethan James**

Heb sôn am ei rhodd o addysg amhrisiadwy i ni fel disgyblion cerddoriaeth yn @YsgolPenweddig yn yr 80au. Wedi aros yn ffrindiau clos dros y blynyddoedd. Diolch Mrs Hall.

Sefydlodd gôr merched a ganai Gerdd Dant yn bennaf - Côr Garn Maelgwyn. Yng ngeiriau Felicity Roberts, un o'r aelodau: "Caem ein trwytho yn ein diwylliant, a'n tywys i adnabyddiaeh o rai o gyfansoddiadau mwyaf angerddol y ffydd a hanes ein gwlad."

Yn 1974 fe'i penodwyd yn athrawes Cerdd Ysgol Penweddig a bu yno nes ei hymddeoliad yn 1989. Yn ei chyfnod yno roedd canlyniadau Lefel O, TGAU a Safon Uwch yr Ysgol mewn Cerddoriaeth yn rheolaidd ymysg y gorau yng Nghymru, yn ôl Trefnydd Cerdd y Sir ar y pryd, Alan Wynne Jones. Bu dathlu aruthrol pan enillodd Côr Cymysg Ysgol Penweddig y brif wobr yng Nghatgegori "Corau Ysgolion Uwchradd" yr Ŵyl Gerdd Genedlaethol i Ieuenctid yn y Festival Hall yn Llundain a chael perfformio wedyn yn y "Prom Ysgolion" yn Neuadd Albert.

"Roedd cyfraniad Gaenor, ei hymroddiad i'r safonau uchaf o ran dysg, iaith a phroffesiynoldeb, yn allweddol i lwyddiant Ysgol Penweddig." meddai ei Phrifathro, Gerald Morgan.

Yr un mor werthfawrogol yw geiriau cyn-ddisgybl iddi, Bethan Habron James, a aeth ymlaen i wneud gyrfa mewn cerddoriaeth. "Prawf o'i hatyniad a'i dylanwad fel athrawes oedd y ffaith i gymaint o ddisgyblion ddewis dilyn cwrs lefel A ym Mhenweddig. Roedd deg neu ddwsin yn ein blwyddyn ni."

Ar ôl ymddeol o Benweddig ymunodd â Dosbarth Cerdd Dafod Vernon Jones yn Rhydypennau a dod yn aelod o Dîm Ymryson y Beirdd y Dosbarth yn Eisteddfod Pantyfedwen ym Mhontrhydfendigaid.

Wrth lunio hyn o werthfawrogiad ni ellir llai na theimlo diolchgarwch dwys, - mor ffodus fu hi i ni, sydd wedi elwa cymaint oddi wrth bresenoldeb y wraig dawel ac urddasol yma yn ein plith – ei chymwynasgarwch a'i pharodrwydd i rannu ei doniau rhyfeddol, - mor ffodus fu hi bod y ferch fach deirblwydd honno a'i doli glwt wedi dod yn ôl gyda'i Mam-gu ar y trên o Birmingham i'r Felin.

**Llinos Dafis**

## TREFEURIG

**Cyhoeddi**

Nos Fercher 10 Chwefror – ar raglen Lisa Gwilym - chwaraewyd sengl newydd Lisa Angharad 'Strangers' gyhoeddwyd nos Wener 12 gan Recordiau Côsh (Bethel, Caernarfon). Tynnwyd y llun yma gan ei chwaer Mari.



## Talwrn y Beirdd

Parhau y mae cyfres gyfredol y Talwrn ar Radio Cymru ar nosweithiau Sul rhwng 7 ac 8 a'r pythefnos nesaf disgwylir gornestau rhwng timau Tegeingl a'r Llewod Cochion (Chwefror 21), a'r Diwc a'r Gwenoliaid (Chwefror 28). Dylai tim y Cwps gystadlu nos Sul Mawrth 14 – ond gwyliwch y gofod gan fod amgylchiadau yn gallu newid trefn pethau. Bu timau Tal-y-bont a Dros yr Aber benben nos Sul 14 Chwefror a Dros yr Aber enilloedd gyda 74 ½ marc – roedd Tal-y-bont yn ail agos iawn gyda 72 ½ Dywedodd y Meuryn Ceri Wyn Jones na fyddai yn synnu pe bai Tal-y-bont yn cael dod drwodd i'r ail rownd gyda sgôr mor uchel.

## Rhwydwaith y Gymuned Ffermio, FCN Cymru

Mae Rhwydwaith y Gymuned Ffermio neu FCN Cymru yn cynnig cefnogaeth i ffermwyr a'i teuluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Sefydlwyd y mudiad dros ugain mlynedd yn ôl . Bellach mae tîm o weithwyr achos profiadol Cymraeg ar gael i gynorthwyo ffermwyr a'i teuluoedd yn yr amseroedd anodd ac ansicr yma. Bydd y gweithwyr yma yn cynnig cymorth a chyd-gerdded gydag unrhyw un sydd yn chwilio am gymorth a cefnogaeth. Ond tydi hyn yn da i ddim onibai fod pobol yn gwybod am y mudiad a sut y gall fod o gymorth iddyn nhw neu eu cydnabod.

Mae swyddog newydd wedi ei benodi fel Swyddog Datblygu'r Rhwydwaith Gymuned Ffermio. Magwyd William Shilvock yn Y Ffor ger Pwllheli ac ar ôl treulio amser yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth yn astudio Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad bu'n gweithio ar Fferm Iaeth, cwmni codi adeiladau amaethyddol a diwydiannol yn ogystal a gweithio fel swyddog cyswllt ffermydd yr Ymddiredolaeth Genedlaethol. Mae William wedi ymgartrefu yn Llithfaen gyda'i bartner Angharad a'r meibion Seth a Albi. Dywedodd ei fod yn "llawn sylweddoli'r angen am gefnogaeth i ffermwyr a'u teuluoedd gan y bydd sail yr economi amaethyddol yn newid yn y blynyddoedd nesaf" ychwanegodd ei fod yn "edrych ymlaen i hyrwyddo yr elusen fel bod pawb yn gallu manteisio arni."

Y cyfan sydd angen wneud ydi ffonio **03000111999** unrhyw dro rhwng 7yb ac 11yh ac fe gewch wasanaeth cyfangwbwl gyfrinachol a personol. Galwch hefyd ymweld a fcn.org.uk/?lang=cy neu www.farmwell.cymru am fwy o wybodaeth;



# Hen lun difyr



Ymddangosodd y llun yma ar dudalen y Borth ar Facebook – wedi ei roi yna gan David Melville Rowlands – brodor o Dre'r-ddol sydd bellach yn byw yn Canberra, Awstralia. Mae yn holi tybed a oes rhywun yn gwybod lle dynnwyd y llun a beth oedd yr achlysur. Mae'n debyg iddo gael ei dynnu cyn y Rhyfel Mawr.

Ond yn anffodus nid oes dyddiad arno. Roedd ymhlith hen luniau gafodd ei ddiweddar fam - Catherine Rowlands née Thomas, o le ei rhieni ar ôl iddynt farw. Mae David dan yr argraff i'r llun gael ei dynnu yn ardal Tre'rddôl – y Borth ar ddiwedd helfa am adar – ac un neu ddwy gwningen neu 'sgyfarnog. Roedd teulu ei dad-cu yn cynnwys ewythrod/ modryboedd yn y Borth – gan gynnwys teuluoedd o forwyr, ardal Henllys (Llwynysguborwen a'r Frongoch ger Henllys), a fferm Glandyfi (ar ffordd Llangynfelyn–Ynys-las). Mae erthygl gan David Melville Rowlands am ei deulu ar t.6 yn rhifyn Rhagfyr 2017 o *Papur Pawb* – gweler eu gwefan. http://papurpawb.com Os oes gennych wybodaeth pwy yw rhywrai yn y llun neu lle'i tynnwyd cysylltwch â'r golygydd.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Gwasanaeth argraffu diguro
Holwch Paul am bris!
paul@ylolfa.com
01970 832 304
y olfa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.ylolfa.com

Trydan WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# Colofn Enwau Lleoedd

Ar y llethr i'r chwith o'r ffordd sy'n arwain o Hen Goginan dros y gefnen i Gwmerfyn, mae tŷ a elwir yn *Box Cottage*. Rhaid ei fod wedi ei adeiladu cyn 1843 am y caiff ei nodi ar y Map Degwm yn y flwyddyn honno, er nad yw'n cael enwi yno. Hyd y gwn i, daw'r ddau gyfeiriad cynharaf at yr enw o'r flwyddyn 1861: y naill yng Nghyfrifiad tref ddegwm Melindwr lle nodir mai *Box Cottage Geuallt* oedd cartref John Williams, 'Lead Mine Agent', a'r llall yn gofnod o enedigaeth ei ferch yn *The Aberystwyth Observer* ar 9 Mawrth.

Digwydd yr enw *Box Cottage* yn gymharol gyffredin ar dai a bythynnod, gyda'r elfen *box* fel arfer yn gyfeiriad at y *pren bocs*, llwyn bythwyrdd a dyfir yn aml fel perthi addurnol mewn gerddi. Ond yn achos *Box Cottage*, Goginan, mae'n werth ystyried un tarddiad arall posibl, er y byddai rhai yn dadlau ei fod yn ffansïol ac annhebygol.

Cofnodir yng Nghyfrifiad tref ddegwm Melindwr yn 1841 mai mwynwr o'r enw *Robert Box*, ynghyd â'i deulu, oedd yn byw yn *Cornish Mount*, Goginan. Mae'r ffaith bod y teulu cyfan, yn cynnwys merch flwydd oed, wedi eu geni y tu allan i sir Aberteifi, yn awgrymu mai newydd-ddyfodiaid diweddar i'r gymdogaeth oeddent. Ddegawd yn ddiweddarach, roeddent wedi symud i rif 1 *English Row*, gyda Chyfrifiad 1851 yn datgelu bod *Robert Box*, fel nifer o'i gyd-fwynwyr yn yr ardal, yn hanu o Ddyfnaint.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Ioan Lord, arbenigwr ar y mwynfeydd, am gadarnhau mai enw arall oedd *Cornish Mount* am *Cornish Row*, rhes o dai gweithwyr a safai gynt ar gwr dwyreiniol gwaith mwyn Goginan, islaw fferm y Castell.

Cefais wybod hefyd gan Ioan bod *English Row* yn enw a





Map 6" yr Arolwg Ordnans 1887.
Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban

ddefnyddid ar un adeg am *Gilbertson's Row*, rhes o dai sydd i'w gweld yn union i'r gorllewin o *Box Cottage*. Mae hynny'n cyd-fynd â thystiolaeth Cyfrifiad 1851 sy'n rhestru *English Row* rhwng *Goginan Fach* (i fyny'r ffordd tua Chwmerfyn) a thafarn y *Royal Oak* i lawr i gyfeiriad Hen Goginan.

Mae'n glir felly i *Robert Box* fod yn byw yng nghyffiniau'r bwthyn o leiaf ddegawd cyn yr enghreifftiau hysbys cynharaf o'r enw *Box Cottage*. Ond ai afresymol, gan hynny, fyddai tybio bod cysylltiad rhwng *Robert Box* a *Box Cottage*, a bod posibilrwydd mai'r mwynwr o Ddyfnaint, yn hytrach na'r llwyn bythwyrdd, a gofféir yn yr enw? Y cwestiwn allweddol, a'r un anodd ei ateb, yw a fyddai bwthyn yn debygol o fod wedi ei enwi ar ôl mwynwr cyffredin.

Os oes gan rhywun o blith darllenwyr *Y Tincer* wybodaeth allai wrthbrofi neu ategu'r ddamcaniaeth hon am darddiad posibl yr enw, byddwn yn falch o glywed.

Hanes digon trist oedd i deulu *Robert Box* ar ôl 1851. Claddwyd ei fab dwy oed yng Nghapel Bangor ar 8 Ebrill 1856, a'i wraig, Jane Prior Box, flwyddyn yn ddiweddarach ar 16 Ebrill 1857. Dengys adroddiad ym mhapur newydd *The Welshman* mai boddi oedd achos ei marwolaeth, a bod ei gŵr wedi symud i Awstralia ac yn disgwyl iddi ymuno ag ef:




ABERYSTWITH.—On Sunday last an occurrence of a most melancholy nature took place in this town, resulting in the untimely death of Mrs. Jane Box, residing in Portland-street, and keeping a Temperance Hotel. On the morning of that day, about six o'clock, she was discovered by her daughter drowned in a cask of water, being immersed as far as her shoulders. Medical and other assistance was immediately procured, but life appeared to have been extinct for some time. No reason could be positively assigned for the occurrence, but it is supposed that she must have fallen in accidentally, and failed to extricate herself. A coroner's inquest was held on Monday, before J. M. Davies, Esq., when the jury returned a verdict of "found drowned." The deceased's husband is in Australia, where she was about to join him.

The Welshman, 17 Ebrill 1857, t.5
https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/4349381/4349386/36/

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


# BOW STREET

**Cystadlu ym Mastermind Cymru**

Bu Cledan Davies, 17 Maes Ceiro, gystadlu ar raglen Cwis S4C Mastermind Cymru yn ddiweddar. Ei bynciau arbenigol oedd 'C'mon Midffild' a 'Cwpan y Byd Pêl Droed 1998'. Mi ddaeth yn gydradd 8fed ar y sioe a dim ond methu allan o gyrraedd y ffeinal o 5 pwynt yn unig. 'Mi wnes fwynhau'r profiad yn fawr iawn a chefais lot o hwyl yn ei ffilmio er fy mod yn teimlo bach yn nerfus.' Rhaid cofio trwy'r gyfres i gyd, Cledan cafodd y sgôr uchaf o 12 o bwyntiau yn ei bwnc arbenigol. Da iawn Cledan.



**Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre**

Mae'n hyfryd medru nodi bod yr ymateb i'r anrheg fechan sy'n cael ei rhoi adeg y Nadolig yn flynyddol i'r trigolion hynny yn yr ardal sydd dros 70 mlwydd oed wedi cael ei werthfawrogi'n fawr unwaith eto. Daeth y gair o ddiolch cyntaf oddi wrth Mrs Shirley Rowlands, Tregerddan, ac yna o sawl cyfeiriad arall. Wrth ddiolch o galon i bawb sydd yn aelodau o'r Pwyllgor am eu gwaith y mae diolch arbennig yn ddyledus i Hafwen a Lowri am drefnu'r cyfan.

**Merched y Wawr**

Diolch i Margaret am yr ebyst sydd yn ein cyrraedd yn gyson gyda'r wybodaeth ddiweddaraf sydd yn dod o'r Swyddfa yn Aberystwyth. Ac y mae'n braf deall bod rhai o'n haelodau wedi ymateb i un darn o wybodaeth ddiweddar ac wrthi'n brysur yn dilyn esiampl Brenda a Gaenor sydd wrthi'n brysur yn gwau Blodau Gobaith (ac y mae sôn bod hyd yn oed y Llywydd wedi dechrau gwau!). Daliwch ati, Mair.

**Noddfa**

Diolch i bawb sydd wedi ein galluogi i gynnal y Gyfeillach wythnosol bob bore Sul yn ystod mis Ionawr. Mae'r themâu wedi bod yn gyson amrywiol a diddorol ac mae'n sicr bod y cyfan nid yn unig yn cael ei werthfawrogi ond hefyd yn profi bod ystod eang o'n haelodau yn medru ymateb i her pan mae gofyn.

Sioc anferthol a thristwch dwys oedd ein hymateb i'r newyddion am farw sydyn Mrs Gwyneth Evans, Maeshenllan, Llandre, yn blygeiniol ar ddiwrnod olaf mis Ionawr ac nid yw'n ormodiaeth dweud mai parhau mae'r sioc a'r tristwch hwnnw wrth i ni sylweddoli ein bod wedi colli aelod a ffrind mor arbennig. Mae'n cydymdeimlad â Shân ac Andrew a'u teuluoedd yn ddiffuant.

**Mis Ionawr yng Nghapel y Garn**

Mae cyfarfodydd rhithiol y Capel yn parhau i ddarparu man cyfarfod a chyfeillach gynnes i lawer o aelodau'r ofalaeth, gyda gwasanaeth bob bore Sul am 10 o'r gloch ac Ysgol Sul yn dilyn hynny am 11.00.

Yng nghyfarfod Ionawr o'r Gymdeithas Lenyddol, ar Ionawr 12, rhoddodd Dr Gareth Bonello o Gaerdydd gyflwyniad diddorol a gwybodus yn seiliedig ar ei waith ymchwil trwyadl i'r hyn sy'n gyffredin heddiw rhwng cerddoriaeth y Cymry a phobl Khasia yng Ngogledd Ddwyrain India o ganlyniad i bresenoldeb y Cenhadon yno rhwng 1840 a 1969, cyfnod y mae perygl i'r hanes amdano fynd yn angof.

Yng nghyfarfod Clonc a Phaned ar Ionawr 13 cafwyd trafodaeth ddifyr, dan arweiniad ein Bugail, ar ein hatgofion cynharaf, a phob un ohonom yn cael cyfle i ddweud ein dweud; fore Ionawr 20



Dilys Jones gyflwynodd hanes y bardd Dafydd Jones, Ffair-rhos a Thirwedd Tregaron i ni; ar y 27ain cwis am bobl a phethau hen Sir Dyfed gawson ni gan Eddie Jenkins, ac ar Chwefror 3 atgoffodd Ina Tudno Williams ni, drwy gyfrwng stori, o bwysigrwydd trin pawb â pharch, pa mor wahanol bynnag ydyn nhw o ran lliw eu crwyn neu nodweddion eraill.

Llongyfarchwyd Y Parchg Watcyn a Mrs Lowri James ar enedigaeth eu hŵyr Gruffydd ar Ionawr 25, mab i'w merch Esyllt ac anfonwn ein dymuniadau gorau i'r teulu bach.

**Actores lwyddiannus**

Ysgrifennais y canlynol am Gwyneth yn rhifyn Mehefin o'r *Tincer* yn 2010: "Ar sail ei pherfformiad diweddaraf yn y ffilm *Royal Wedding* gellir dweud gyda hyder y bydd wyneb Gwyneth Keyworth yr actores o Bow Street yn un cyfarwydd iawn ar ein sgrïniau yn y dyfodol." Deng mlynedd yn ddiweddarach mae Gwyneth wedi ymddangos ar lwyfannau'r Globe a'r Bristol Old Vic ac wedi ymddangos ar S4C, BBC, ITV, HBO, Sky a Netflix.

Mewn adolygiad o ddrama yn y Bristol Old Vic ble roedd hi'n actio gyda Caroline Quentin yn 2015 dyma ddywedodd adolygydd y *Guardian* amdani 'Gwyneth Keyworth, who graduated from RADA only last year but is already established as a telly actress in *Misfits*, is delectable' A disgrifiad adolygydd arall o un o'i pherfformiadau oedd 'Heartbreaking good.' Mewn adolygiad o *Defending the Guilty* (BBC 2) dywedir amdani 'Welsh Danielle is Angry Chav and steals most of the best lines.' Mae cael llinellau da wastad yn gymorth i actor wrth gwrs ond mae'n rhaid cael y ddawn a'r grefft i'w trosglwyddo'n llwyddianus hefyd ac mae'r ddawn honno yn sicr gan Gwyneth.

Does dim lle mewn erthygl fer i restru ei holl ymddangosiadau ond mae'n rhyfeddol pa mor brysur y bu yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan gofio natur anwadal y diwydiant. Sy'n brawf wrth gwrs o'i dawn fel actores. Ydi, mae'r ferch o'r Lôn Groes yn seren.

Y newyddion da yw ei bod yn dal i gael cyfle i actio yn y Gymraeg ac ar hyn o bryd gallwn ei gweld gyda Richard Harrington yn Y Fflam ar S4C.

Nid yw Gwyneth wedi anghofio ei gwreiddiau ac mae hi bob amser yn cydnabod ei dyled i Buddug James Jones am roi'r dechreuad iddi yn Licris Alsorts ac am ei anogi i fynd yn actores. Trueni mawr na chafodd Buddug y cyfle i weld y llwyddiant sydd wedi dod i'w rhan.

**Gareth William Jones**



# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor ar Zoom nos Iau Ionawr 21 gyda'r cadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod cyntaf 2021 a dymunodd Blwydddyn Newydd Dda iddynt. Roedd yna 7 o gynghorwyr cymuned yn bresennol a hefyd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorwr.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf – sef mis Tachwedd 2020 – fel rhai cywir.

Roedd y Cyngor wedi derbyn rhai ceisiadau am arian oddi wrth rhai mudiadau lleol ac eraill. Cafodd rhain eu trafodi yn y cyfarfod.

Roedd sawl cais cynllunio wedi dod I sylw y Cyngor, sef:

A201050 – Tir ger Awel y Mynydd, Pisgah; A201088 Bwthyn Red Kite, Goginan; A201103 Pantmawr Pisgah; A 201113 Pantmawr, Pisgah: A210015 Gwerddol Goginan. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau.

Roedd y Cyngor Cymuned wedi trefnu i gwrdd efo Elin Jones AC a Ben Lake AS ar yr 22ain o Ionawr ynglyn â gwelliannau i'r A44 rhwng Blaengeuffordd a Capel Bangor ond oherwydd cyfyngiadau Covid bu rhaid gohirio y cyfarfod.

Yn y cyfarfod diolchodd y Cynghoryddd Sir y cynghorwyr a'r trigolion a fu yn cyfathebru ag ef ac yn cadw llygad ar sefyllfa y dŵr yn Afon Melindwr yn ystod Storm Christoph.

Mae yna sedd wag ar y Cyngor; mae angen rhywun i gynrychioli ardal Goginan. Os oes gan rhywun o'r gymuned ddiddordeb i fod yn gynghorydd bro cysylltwch â'r clerc (Lynne B Davies, Glasfryn, Capel Bangor) neu un o'r Cynghorwyr am rhagor o wybodaeth.

Oherwydd y cyfyngiadau presennol bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau Chwefror 18fed am 7.30yh yn cael ei gynnal trwy gyfrwng Zoom unwaith eto.

# Llythyr

Annwyl ddarllenwyr,
Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mae Urdd Gobaith Cymru wedi – ac yn parhau – i wynebu'r cyfnod mwyaf heriol yn ei hanes o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Rydym wedi gorfod colli hanner ein gweithlu (dros 160 staff) ac yn rhagweld colled incwm o oddeutu £14M dros y ddwy flynedd nesaf. Oni bai am gefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru bydden ni wedi bod mewn sefyllfa llawer mwy trychinebus, a'r gefnogaeth ariannol ychwanegol wedi ein galluogi, yn syml, i gadw ein pennau uwchben y dŵr a sicrhau y bydd Urdd yn gallu goroesi.

Mae hi wedi bod yn gyfnod o bryder mawr, ac mae gwaith caled iawn o'n blaenau o hyd. Ond, rwyf yn hynod falch ein bod fel mudiad wedi gallu arall-gyfeirio rhai o'n gwasanaethau er mwyn cadw cysylltiad gyda'n haelodau.

Mae ein gwersylloedd wedi agor eu drysau i gynnig cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus, rydym wedi sefydlu cyfleodd ddigidol yn ein meysydd Ieuenctid, Chwaraeon a'r Celfyddydau,



yn parhau i redeg ein gwasanaeth Prentisiaethau, wedi llwyddo i hyrwyddo Neges Heddwch ac Ewyllys i gynulleidfa o dros 37 miliwn, wedi cynnal Eisteddfod T llwyddiannus ac wedi creu a chynnal digwyddiadau rhyngwladol rhwng aelodau'r Urdd a phobl ifanc Alabama a'r Iwerddon.

Braint oedd cael hefyd cydweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru wrth lansio ein hymgyrch codi arian, '**Het i Helpu**', cyn y Nadolig. Mae'r gefnogaeth a ddangoswyd i'r Urdd yn ein cymunedau ar draws Cymru (a thu hwnt!) wedi codi ein calon ni fel mudiad, a fedraf i ddim diolch ddigon i bawb sydd wedi'n cefnogi.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o blant a phobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiad o'n hiaith a'n diwylliant ac ar drothwy ein canmlwyddiant rydym yn edrych i'r dyfodol gydag agwedd bositif ac hyderus. Mi ddaw'r Urdd drwy'r cyfnod yma, yn gryfach ac yn barod i weithredu er budd plant a phobl ifanc Cymru unwaith yn rhagor.

Diolch o waelod calon i chi am yr holl gefnogaeth.

Cofion gorau,
Siân Lewis, Prif Weithredwr

Os hoffech wneud cyfraniad tuag at yr Urdd gallwch wneud hynny drwy ymweld â'n gwefan (**urdd.cymru/cyfrannu**), neu drwy anfon siec yn daladwy i **Urdd Gobaith Cymru** at:
Adran Ariannol Urdd Gobaith Cymru
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd
LL23 7ST

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

# Adolygiad


Richard E. Huws: *Pobol y Topie: Bont-goch Lives*. Gwasg Pant-gwyn, 2020. 168t. £12.00.

O sylwi ar y gyfrol hon mewn siop lyfrau, a'i chasgliad o wynebau diddorol ar y clawr, pwy na allai ei chodi i'w harchwilio'n fanylach? Dyna basio'r prawf cyntaf felly – clawr deniadol a thipyn o ôl dychymyg a dyfais arno. Nid dyma'r tro cyntaf, wrth gwrs, i'r awdur hwn anrhegu ei ardal fabwysiedig (a ninnau i gyd yn wir) â chyfrol, sef yw honno *Enwau tai a ffermydd Bont -goch (Elerch), Ceredigion,* a ddylai – fel hon ei holynydd – fod ar silff darllenwyr selog y *Tincer* i gyd. Ni allai'r darllenydd lai na sylwi wrth droi tudalennau'r gyfrol honno, ar drylwyredd yr awdur, ac y mae ei driniaeth o'i ddeunydd yn y gyfrol hon yr un mor fanwl ofalus.

Beth allai 'Pobol y Topie' ei olygu – ai disgynyddion cenedlaethau o hen deuluoedd y bu'r ardal dan sylw yn gynefin iddynt? Hynny'n sicr, ond taflodd yr awdur ei rwyd yn ehangach o lawer gan ddiogelu ynddi, nid yn unig brodorion 'y topie' ond eraill lawer a fu ac sy'n parhau i fod â rhan yn hanes yr ardal dan sylw. Oherwydd dros y blynyddoedd daeth eraill o amrywiol gyfeiriadau i fyw yma, weithiau am gyfnodau byrion, bryd arall yn barhaol. Ceir cofnod ohonynt hwythau bob un – gryn dri ar ddeg ohonynt – o Efrog Newydd, o Hambwrg, o Baden-Oos, heb sôn am leoedd nes megis Swydd Efrog, Nantwich, Bullock Booth yn swydd Northampton, Caeredin, Sheffield ac yn y blaen. Cymaint cyfoethocach fyddai ein silffoedd llyfrau a'n gwybodaeth amdanom ni'n hunain petai eraill ohonom wedi dilyn llwybr tebyg am ein cefndiroedd ninnau. Bydded i'r gyfrol hon fod yn ysbrydoliaeth ac yn batrwm i sawl un a fynn anwesu ei gynefin a'i rannu ag eraill.

Yn wahanol i'w gyfrol *Enwau tai a ffermydd*, cyfrol ddwyieithog yw hon, a phenderfynwyd ei chyhoeddi felly, meddai'r awdur yn ei gyflwyniad, fel arwydd o ddiolch i'r nifer o bobl ddi-Gymraeg a fu'n ei gynorthwyo. Byddai ei hapêl yn ehangach hefyd, meddai, a byddai'n 'adlewyrchiad o'r sefyllfa ieithyddol a demograffig bresennol sydd ohoni yng nghefn gwlad Cymru'.

Casgliad o bortreadau felly a geir yn y gyfrol dderbyniol iawn hon – portreadau byrion, ond portreadau sy'n llawn i'r ymylon o wybodaeth a archwiliwyd yn fanwl, ac a osodwyd o'n blaenau yn glir, yn ddarllenadwy ac yn ddiddorol. Y mae'n gyforiog o luniau. Yn wir, eithriadau prin yw'r erthyglau hynny heb fod llun person neu wrthrych ynglŷn â hwy, ac nid rhan




fechan o'i hapêl yw hynny.

Ganed a maged fy mam ym mhentref Cwmsymlog, ac olion y diwydiant mwyn plwm o'i chwmpas ym mhob man. Llawer tro y clywais hi'n mynnu mai tua Bont-goch bob amser fyddai'r dynfa naturiol iddi hi a'i theulu a'i chyd-bentrefwyr, yn hytrach nag i lawr y cwm i gyfeiriad Pen-y-bont Rhydybeddau a Phenrhyn-coch. Tua Bont-goch y teithient yn rheolaidd i gwrdd cystadleuol, darlith neu sosial, boed yn dywydd gaeafol neu beidio.

Cymwynas bellach yr awdur yw'r atodiadiu gwerthfawr o dudalen 157 ymlaen, sef 'Offeiriaid a Gweinidogioin' ac 'Enwau Lleoedd Ardal Bont-goch (Elerch)' sy'n cynnwys enwau rhai o'r amrywiol drigolion a fu byw yno o bryd i'w gilydd.

Un wraig yr wyf am dalu teyrnged arbennig iddi ac y gwelir llun ohoni ar dudalen 65 yn y gyfrol, sef Margaret Mary Evans. Yr oedd yn athrawes yn ysgol Tefeurig pan oeddwn i'n ddisgybl yno flynyddoedd lawer yn ôl. Bob bore'n ddi-ffael ac ym mhob tywydd, cerddai ar draws gwlad agored o Bont-goch i'r ysgol yn Nhrefeurig, ac yn ôl gartref drachefn o gwmpas y tri o'r gloch. Er nad oedd bod yn fam yn brofiad iddi, deallai feddwl plentyn yn reddfol a gallai fynd i'w fyd yn ddiymdrech. Llawer tro, wedi imi adael Ysgol Trefeurig a mynd i Ysgol Ardwyn, deuthum wyneb-yn-wyneb â hi ar y stryd yn Aberystwyth, a manwl bob amser fyddai ei holi am fy hynt a'm helynt. Ei geiriau bob amser pan ymwahanem fyddai: 'Cofiwch, pa mor dda bynnag y gwnewch chi, gwnewch-chi byth yn well nag yr ydw i'n ddymumno i chi'. Coffa da ac annwyl iawn amdani.

Mewn byr eiriau, y mae gwledd yn aros darllenwyr y gyfrol nodedig hon. Wrth ei llunio gosododd Richard yr ardal hon, a chynulleidfa ehangach o ddarllenwyr, yn ddwfn yn ei ddyled. Diolch cynnes a gwerthfawrogol iawn iddo, heb anghofio wrth gwrs gyfraniad Eirlys a fu'n gefn ac yn gymorth di-ffael iddo yn ei lafur.

**Tegwyn Jones**

Uchafbwyntiau'r mis ar
BroAber360.cymru


GAIR GAN YR YSGOGYDD

Helo bawb! Llwyth o stwff da ar BroAber360 ers cychwyn y flwyddyn - gan gynnwys Gwobrau cyntaf erioed Bro360. Ewch i wylio'r fideo ar dudalennau Facebook a YouTube Bro360 ac i weld pwy o BroAber360 (ac ardal Y Tincer) oedd yn fuddugol! - Dan




GWALIA PHILISTIA, PRIFARDD Y GEN

Diolch i Dafydd Pritchard am gyhoeddi ei gerdd am y Llyfrgell Genedlaethol ar BroAber360. Cerwch i'w ddarllen.



TUDALEN YSTADEGAU NEWYDD COVID-19 CEREDIGION

Mae'n siŵr eich bod yn gyfarwydd â Lloyd Warburton dros y flwyddyn ddiwethaf - ar ôl creu gwefan sydd yn cofnodi ffigurau Cofid-19 Cymru, mae Lloyd di creu adrannau newydd fesul sir - gallwch weld un Ceredigion fan hyn: https://coronaviruscymru.wales/ceredigion - gwaith anhygoel, Lloyd.



O'R FATH LANAST GAN GWILYM JENKINS

Mae'r byd yn newid o'n gwmpas o flwyddyn i flwyddyn, weithiau am y gorau ac weithiau am y gwaethaf. Diolch i Gwilym Jenkins am y darn diddorol yma am yr adar sydd wedi diflannu o'r ardal dros y blynyddoedd diwethaf.



Ffili aros tan y papur nesa'?
– BroAber360.cymru

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Ysgol Rhydypennau

**Hwb**

Mae'r ysgol yn parhau i gynnig gwasanaeth Hwb i ofalu am blant ein gweithwyr allweddol yn ystod y Cyfnod Clo. Mewn sefyllfa anodd ofnadwy i blant a rhieni, mae sicrwydd y ddarpariaeth hon yn hynod o bwysig, ac er nad oes niferoedd mawr yn mynychu Hwb Rhydypennau ar hyn o bryd, mae'r gofal gorau gan gynorthwywyr ac athrawon yn destun balchder mawr i'r ysgol. Mae'r plant sy'n mynychu ein Hwb yn cael cyfleon i gymdeithasu a mwynhau amryw o weithgareddau difyr ac, o ganlyniad, fe hoffa'r ysgol ddiolch o galon i holl staff yr ysgol am y gofal, a'r ymrwymiad cyson. Gobeithio y gallwn ni i gyd ddychwelyd i'r ysgol maes o law a chynnig addysg wyneb yn wyneb i'n disgyblion cyn hir.

**Sesiynau rhithiol**


Mae ein athrawon a'n cynorthwywyr yn cynnal sesiynau rhithiol cyson i'n disgyblion. Mae hyn yn gyfle i blant pob blwyddyn sgwrsio a thrafod gyda'i gilydd am yr hyn y maent wedi bod yn gwneud tra i ffwrdd o safle'r ysgol. Y mae hefyd yn gyfle i'r staff gynnal gwersi ffurfiol a thrafod y tasgau a osodwyd gan yr athrawon yn ystod yr wythnos.

**Diogelwch**

Yn ddiweddar cafodd plant blynyddoedd 3-6 sesiynau rhithiol gan P.C. Hannah i godi ymwybyddiaeth peryglon a all godi i effeithio arnynt yn ein cymdeithas. Hyrwyddwyd pwysigrwydd diogelwch yn y cartref ac yn ein cymdeithas i blant blwyddyn 3 a 4 ac fe aethpwyd ymlaen i ymrafael â phroblemau y cyfryngau cymdeithasol gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Hoffa'r ysgol ddiolch o galon i P.C Hannah am y sesiynau holl bwysig yma.

**Celf**

Mae'r cyfnod clo wedi sbarduno ambell ddisgybl i fynd ati i greu






darnau o waith arbennig iawn. Cafwyd cerddi gwych gan Gwenno ac Enid yn y rhifyn diwethaf. Ond tro Emmi yw hi y mis hwn i'n hudo ni gyda'i dawn darlunio. Mwynhewch!

**Ymddeol**

Wedi nifer o flynyddoedd o wasanaeth yn Nosbarth Derbyn Ysgol Rhydypennau, bydd Mrs Alwen Fanning yn ymddeol o'i swydd ar ddiwedd tymor y gwanwyn.

Pan gychwynnodd Mrs Fanning addysgu yn Ysgol Rhydypennau, roedd yn gweithio ar yr hen safle, sef yr 'Ysgol Dop'. Yn 2009, cwblhawyd yr estyniad newydd lle mae'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn sefyll heddiw. Bu hwn yn ddatblygiad cyffrous yn hanes yr ysgol – a Mrs Fanning yna'n goruchwylio pob cam o'r gwaith adeiladu er mwyn sicrhau bod y gofod mewnol a'r ardal allanol yn darparu'r gorau i'r plant!

Fel athrawes, ceir dim gwell. Mae Mrs Fanning wedi adeiladu ac arwain tîm y Cyfnod Sylfaen yn gwbl ddiwyd dros flynyddoedd lawer, gan ennill parch a chydweithrediad pob un. O ganlyniad i'r cydweithio effeithiol hwn, mae cenedlaethau o blant yr ysgol wedi elwa'n sylweddol o ddarpariaeth addysgol ragorol ar draws y Cyfnod Sylfaen, a'r plant bob un wedi mwynhau a datblygu hyder yn eu dysgu.

Rydym yn awyddus i drefnu casgliad ar gyfer anrheg i Mrs Fanning er mwyn cydnabod ei blynyddoedd o wasanaeth diwyd. Danfonwch unrhyw gyfraniadau ymlaen i'r ysgol os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr!

**Clwb Cant**

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn parhau i wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â'r clwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel llynedd, am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr. Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum can punt. Bydd yr holl elw yn mynd at bwyllgor CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:
1af - £25; 2il-£15; 3ydd-£10
Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820656







James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# Ysgol Pen-llwyn









Serch methu ail-agor yr ysgol yn dilyn y Nadolig oherwydd y pandemig, rydym fel ysgol wedi bod yn weithgar yn sicrhau bod ein disgyblion yn cael ystod o gyfleoedd diddorol wrth ddysgu adref.

**Llwyddiannau wrth ddysgu adref** Braf yw cael gweld disgyblion yn ein sesiynau byw dyddiol, unwaith y dydd yn y Cyfnod Sylfaen a dwywaith yng Nghyfnod Allweddol 2. Rhaid canmol pob un disgybl a rhiant am eu hymdrechion i ddysgu adref. Gyda thraean o boblogaeth yr ysgol yn benthyg teclyn digidol y cyfnod clo hwn, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol yn ymrwymiad ein disgyblion i'w dysgu adref. Mae disgyblion, rhieni a staff i gyd wedi cyd-weithio, darparu adborth ar ein darpariaeth, ac rydym wedi addasu'r hyn inni'n gwneud er mwyn ceisio cynnig rhywbeth sy'n addas i bawb. Rydym yn hynod falch fel cymuned ysgol o'r modd yr ydym wedi cyd-weithio er mwyn gwneud y gorau o'r sefyllfa.

**Hwb Gofal Plant** Mae'r ysgol wrth gwrs yn parhau ar agor yn ystod y cyfnod yma i blant gweithwyr allweddol. Yn ogystal ag ymuno a'u gwersi ffrydio byw, a chwblhau gwaith a osodir, mae disgyblion wedi cael mynd am dro, gwneud addysg gorfforol, garddio, coginio, a gwylio ambell ffilm. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i staff yr ysgol am eu gofal o'r disgyblion yma yn ystod y cyfnod hwn.

**Staff** Llongyfarchiadau i Miss Rhian James ar ei phenodiad i swydd Cymhorthydd Anghenion Arbennig rhan amser yn Ysgol Pen-llwyn.

**PC Hanna** Mwynhaodd ddisgyblion CA2 sesiwn byw gan PC Hanna a fu'n crybwyll pwysigrwydd diogelwch ar-lein a phobol y medrwn ymddiried ynddynt. Dysgwyd i beidio â rhoi gwybodaeth bersonol allan i neb ac i fod yn wyliadwrus o hysbysebion neu negeseuon ffug sydd yn ceisio dwyn ein gwybodaeth bersonol. Fel y dywedodd rhaid inni gyd fod fel ditectifs wrth syrffio neu'n chwarae ar y we a chadw llygaid barcud allan rhag cael ein twyllo

**Birdwatch** Bu disgyblion yn frwdfrydig yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Birdwatch y BBC. Cafwyd sawl ymdrech creadigol i greu bwydydd adar i'w hongian yn yr ardd, a chyfle wedyn i ddisgyblion wylio, yn adnabod a chadw cofnod o'r adar a welwyd yn eu gerddi, ac wrth fynd am dro. Llongyfarchiadau i enillwyr y gystadleuaeth ffotograffiaeth adar, sef Talys o'r Cyfnod Sylfaen ac Enfys a Llinos o Gyfnod Allweddol2.

**CRhA** Edrychwn ymlaen at noson Bingo rhithiol dros zoom gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ar nos Wener Mawrth 5ed. Cysylltwch ag aelod o'n cymuned ysgol os hoffech gymryd rhan. Mae'n costio £5 am gerdyn bingo sy'n prynu sawl gêm.

## YSGOL PEN-LLWYN A YSGOL PENRHYN-COCH

Serch yr amser sydd ohoni mae llais y disgybl yn parhau yn flaenllaw yn Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn. Mae ein cynghorau ysgol wedi bod wrthi yn cyfarfod dros teams i gynllunio gweithgareddau ar gyfer ein cymuned ysgol.

**Santes Dwynwen a Dydd Miwsig Cymru** Diolch i bwyllgor Cymry i'r Carn bu wrthi yn paratoi gweithgareddau hwylus i ddisgyblion ddathlu dau achlysur Cymreig. Trefnwyd cystadleuaeth crefft ar gyfer Santes Dwynwen gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn creu Carden Santes Dwynwen, a Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn creu llwy garu, ac oedd yna gystadleuaeth ar gyfer rhieni hefyd. Llongyfarchiadau i'r buddugol, a diolch yn fawr i Mrs Glenys Morgan am feirniadu.

**Wythnos Iechyd Meddwl** Cafwyd y syniad gan ein cyngor ysgol i lansio ymgyrch Her Sblat ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl plant a phobol ifanc. Mae wedi bod yn ddoniol iawn gweld yr holl fideos o ddisgyblion a'u rhieni o'r ddwy ysgol yn ymgymryd â'r her. Gobeithiwn yn fawr ei fod wedi hala chi i wenu ar yr adeg anodd yma!

**Cadw'n iach** Mae ein llysgenhadon Efydd wedi bod wrthi'n paratoi fideos gyda heriau corfforol ar gyfer disgyblion ar draws y ddwy ysgol ac wrthi yn cynorthwyo Mr Shepherd wrth greu Her Hanner Tymor i deithio 2145milltir sef hyd Wal Fawr China y medrir eu cerdded hyd heddiw. Mae modd cyfrannu at ein tudalen just giving sydd wedi hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Cyd-weithio ar draws y ddwy ysgol** Mae'r pandemig wir wedi ategu cryfder y bartneriaeth rhwng ysgol Penrhyn-coch a Phen-llwyn, gyda'r staff yn cyd-weithio i rannu adnoddau dysgu ar draws y ddwy ysgol, yn cynnig sesiynau byw o'i harbenigedd i blant y ddwy ysgol a darlledu gwasanaeth wythnosol i ddisgyblion y ddwy ysgol. Y cwbl wedi galluogi gan y dechnoleg mae staff wedi mynd ati yn ddiwyd i fanteisio ar y defnydd ohoni. Hoffai'r Pennaeth a'r llywodraethwyr ddiolch o waelod calon i staff y ddwy ysgol am eu gwaith caled a'u hangerdd i sicrhau bod dysgu yn digwydd yn ystod y cyfnod yma.

# Ysgol Penrhyn-coch

**Cyfnod Sylfaen**
Mae Dosbarth 1 a 2 wedi bod yn brysur tu hwnt yn dysgu trwy'r themâu: y Gaeaf, iâ, iâ, iâ, Santes Dwynwen ac am adar. Yn ystod eu sesiynau byw trwy Teams maent wedi bod yn gwneud Ioga yn yr Antartig, sesiynau arlunio, trafod teimladau, gwaith rhif, gwrando ar straeon, dysgu ffeithiau, sesiynau meddwlgarwch a chanu. Braf yw gweld wynebau'r plant pob dydd. A rhaid llongyfarch eu brwdfrydedd a'u hegni yn y sesiynau.

**Cyfnod Allweddol 2**
Mae'r disgyblion wedi llwyr ymrwymo i ymuno yn ein gwersi ffrydio byw bob bore a phrynhawn! Maent wedi dysgu llawer am hanes Santes Dwynwen, ymgyrch RSPB wrth wylio adar sydd yn ymweld â'u cartrefi ac mi wnaeth sawl disgybl gymryd rhan yn ein prosiect i gynllunio a chreu bwydwr adar. Cawsom wythnos o godi ymwybyddiaeth tuag at iechyd meddwl ein disgyblion - ffocws eleni oedd creadigrwydd ac rydyn wedi mwynhau yn ein sesiynau prynhawn yn cynnal gweithgareddau ar-lein – rydyn wedi creu origami o gi, cyfansoddi rap bersonol gyda chymorth Mr Fformiwla ac roedd gwylio sgiliau creadigol y plant ar Flipgrid yn llawer o hwyl!

**Cyngor Plant Gwyrdd**
Penderfynodd y criw plant gwyrdd ar ôl i ni gwrdd dros Teams i gynnal cystadleuaeth tynnu ffoto o unrhyw beth yn yr ardd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ac yna ffoto aderyn i gyfnod allweddol 2. Cawsom feirniad proffesiynol - sef Betsan Evans o gwmni ffotograffiaeth Celf Calon ac yn ogystal a hynny mae ein diolch yn fawr i Geraint Jones o gwmni CCF am roi'r gwobrau! Un enillydd o bob dosbarth a dyma nhw:
Dosbarth Derbyn - Math
Dosbarth2-Bl 1 a 2 - Harry
Dosbarth 3 -Bl 3 a 4 - Gabriel Brown
Dosbarth 4-Bl 5 a 6 - Osian Mills

**PC Hannah**
Cafodd disgyblion CA2 sesiynau buddiol gyda PC Hannah ar-lein lle cafwyd trafodaethau diddorol ar ddiogelwch ar-lein ac yn pwy gallwn ymddiried ynddo yn ddiogel.

Dysgwyd i beidio a rhoi gwybodaeth bersonol allan i neb ac i fod yn wyliadwrus o hysbysebion neu negeseuon ffug sydd yn ceisio dwyn ein gwybodaeth bersonol. Fel y dywedodd rhaid i ni gyd fod fel ditectifs pan yn syrffio neu'n chwarae ar y we a chadw llygaid barcud allan rhag cael ein twyllo

**Dathlu Dydd Santes Dwynwen**
Dathlu tra gwahanol fu eleni. Rhoddwyd neges allan gan y Cymry i'r Carn i bawb i wisgo dillad coch yn eu gwersi byw er mwyn dathlu. Fe wnaeth y Cyfnod Sylfaen gynnal Disgo Santes Dwynwen ar-lein. Cafodd CA2 sawl tasg i wneud yn ystod y dydd i gofio am hanes Santes Dwynwen.

**Cystadleuaeth Dydd Santes Dwynwen**
Penderfynodd y Cymry i'r Carn i gynnal cystadleuaeth Santes Dwynwen. Dyma'r categorïau – Cyfnod Sylfaen = creu cerdyn Santes Dwynwen, CA2 = Creu llwy garu 2D neu 3D a'r rhieni i greu calon allan o wrthrychau. Bu cystadlu brwd a phenderfyniad anodd i wneud i Ms. Glenys Morgan ein beirniad. (Diolch yn fawr i chi Glenys.) Diolch i bawb am gystadlu a llongyfarchiadau i'r isod.
CS 1af - Phoebe (Ysgol Pen-llwyn), 2il - Isla-Rose (Ysgol Penrhyn-coch), 3ydd - Alisha (Ysgol Penrhyn-coch).
CA2 - 1af Gwen (Ysgol Pen-llwyn), Cydradd 2il - Elis a Freya (Ysgol Penrhyn-coch), 3ydd Gwen (Ysgol Penrhyn-coch).
Rhieni - Mam Isla-Rose (Ysgol Penrhyn-coch).

**Ffeil**
Bu Gwen ar raglen Ffeil yn ddiweddar yn sôn am ei phrofiad hi yn ystod y cyfnod clo yma.


**Beirdd ifanc**
Braf oedd llongyfarch Elis Wyn wrth iddo ennill yng nghystadleuaeth ysgrifennu cerdd i'r Tincer ar sail thema 'Agor drysau' ond yn ogystal a hynny Lleucu ap Llywelyn dderbyniodd yr ail wobr.

**Wythnos RSPB**
Bu pob disgybl yn dysgu mwy am yr adar sydd I weld o fewn ein gerddi ac yn ein cymuned trwy gymryd rhan yn ymgyrch RSPB. Mynychodd nifer o'r disgyblion mewn gwers fyw ar BBC Teach a braf oedd gweld enw'r Ysgol a rhai o'r disgyblion ar y sgrin!










# Tasg y Tincer

Diolch i chi – Noah Fox, Penrhyn-coch; Tesni Davies, Llanilar ac Ifan Edwards, Penrhyn-coch – am eich lluniau bendigedig. Dy enw di, Ifan, ddaeth o'r het yn gyntaf – hwrê mawr i ti! Daliwch ati, bawb. Mae gweld eich lluniau yn codi calon bob tro!

Yn China, mae'r Flwyddyn Newydd yn dechrau ar **12 Chwefror**. Mae'n ddigwyddiad pwysig iawn yn China ac mewn sawl gwlad arall, gan gynnwys Cymru, lle mae 'na bobl Chineaidd yn byw. Bydd y dathlu'n wahanol eleni, ond fel arfer maen nhw'n cael gwledd a sioeau tân gwyllt. Mae gan bob blwyddyn Chineaidd symbol, sef anifail, ac mae stori'r anifeiliaid yn ddiddorol iawn. Yn ôl yr hen chwedl, trefnodd ymerawdwr China ras fawr, gan wahodd 12 anifail, er mwyn gweld pwy fyddai'n ennill. Y llygoden fawr oedd yn gyntaf, yna'r ych, wedyn y teigr, yna'r gwningen, y ddraig, y neidr, y ceffyl, y ddafad, y mwnci a'r ceiliog. Yna'r ci, ac yn olaf ddaeth y mochyn – arhosodd hwnnw i gael bwyd ar y ffordd!

Blwyddyn yr ych neu'r bustach yw hi eleni, 2021. Ges i fy ngeni ym mlwyddyn y mwnci! Beth yw symbol eich blwyddyn geni chi, tybed?

Ac mae gynnon ni ddathliad pwysig iawn ar Fawrth y 1af – **Dydd Gŵyl Dewi.** Rhaid gwisgo cenhinen Bedr a chael cawl, wrth gwrs, ond y peth mwyaf pwysig yw dathlu ein bod ni'n Gymry! Mae gan Dewi gysylltiad agos â Cheredigion, wrth gwrs!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn**

Beth am liwio llun y ddraig goch? Anfonwch eich lluniau drwy ebost (anwenmai@hotmail.co.uk) neu drwy'r post at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mawrth. Ta ta tan toc.



Ifan

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 436 | Chwefror 2021*
CYMRAEG Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru